

# Duw a ni: Pwy sy'n gwneud beth?

***'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwrch felly  
ar i Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf'  
Mathew 9:37-38***

*Mae'r daflen hon yn amlinellu sut y gallwch fynd ati i drafod prif themâu'r fideo yn ddyfnach. Gallwch addasu'r amseru yn ôl yr angen.*

**Cwestiwn allweddol: Beth yw gwaith Duw a'n gwaith ni wrth efengylu?**

**Amcan: Sylweddoli sut yr ydym i ddibynnu ar Dduw heb esgeuluso ein rôl ni mewn efengylu.**

## Trafodaeth Agoriadol (3 munud)

Yn ystod ein bywydau bydd pobl a phethau yn dylanwadu arnom. Beth am sôn ychydig am eich profiad o Dduw yn gweithio yn eich bywyd trwy berson arall?

*Er mwyn rhoi cyfle i bawb, awgrymwn eich bod yn rhannu'n grwpiau bach o dri neu bedwar i drafod.*

## Gwyllo fideo Rhodri Glyn (tua 15 munud)

## Cwestiynau Trafod/ Pwyntiau Gweithredu (15 munud)

*Dyma rai awgrymiadau, peidiwch â theimlo rheidrwydd i fynd trwyddynt i gyd!*

1. Beth yw'r rhwystrau pennaf i ni rhag efengylu?
2. A yw'r ffaith fod pob un ohonom yn dystion, boed hynny'n wych neu'n wael, yn newid y ffordd yr ydym yn meddwl am yr alwad i sôn wrth eraill am Iesu? (Actau 1:8)
3. Beth ydym ni'n ei ddisgwyl fydd yn digwydd wrth i ni gyflwyno'r Efengyl? Oes gennym ni ddisgwyliadau Beiblaidd (Marc 4:13-20)?
4. Dewiswch un o'r gweddïau niferus yn y Beibl a nodi tair agwedd arni a all fod yn symbyliad i ni wrth weddio. Cofiwch wneud hyn wrth weddio!
5. Ym mha ffyrdd y mae'r Ysbryd Glân ar waith yn eich bywyd chi?
6. Rhannwch rai awgrymiadau ymarferol ynglŷn â sut y gallwn ni fod yn dystion sy'n cael ein llenwi â'r Ysbryd bob dydd? (Effesiaid 5:18) E.e. defnyddio apiau penodol sy'n ein helpu i foli/ gweddio, neu roi adnodau Beiblaidd mewn llefydd pwrpasol o gwmpas y tŷ.

# Duw a ni: Pwy sy'n gwneud beth?

## Cyfnod o Weddi (12 munud)

*Efallai gallwch chi rannu'n grwpiau bach unwaith eto i weddio. Bydd yn dda gweddio am yr hyn sydd wedi annog neu herio aelodau'r grŵp; a dyma bwyntiau penodol ar gyfer y sesiwn hon:*

- Diolch am gael y fraint ryfeddol o brofi daioni Duw yn Iesu Grist a chael ein hanfon i basio'r neges ymlaen at eraill
- Gweddio ar i'r Ysbryd ein gwneud yn fwy parod i wneud ein rhan, ac i'r rhai yr ydym yn siarad â hwy i ddod i ffydd fywiol yng Nghrist
- Gofyn ar i Dduw roi cyfle amlwg i ni sôn am yr Efengyl gyda ffrind, cydweithiwr neu aelod o'n teulu
- Cyflwynwch weithgareddau efengylu penodol eich eglwys/ sefydliad cenhadol i'r Arglwydd

## Myfyrdod Beiblaidd (10 munud)

*Dyma fyfyrdod ychwanegol o'r Beibl i ystyried y brif thema ymhellach. Gallwch ei ddefnyddio'n rhan o'r sesiwn hyfforddi, neu ddosbarthu'r nodiadau fel myfyrdod personol yn ystod yr wythnos*

### 1 Corinthiaid 2:1-5

Cyd-destun: Paul yn annog Cristnogion Corinth nad oedd deallusrwydd na statws o bwys wrth gyhoeddi'r newyddion da am Iesu Grist. Cyhoeddi'r neges yn ffyddlon gan ddibynnu ar yr Ysbryd Glân sy'n gwneud gwahaniaeth

Esboniad: Yn y geiriau hyn gwelwn sut mae Paul yn cydnabod ei wendid personol wrth rannu'r Efengyl, ond bod grym yr Ysbryd Glân yn galluogi'r neges i fod yn chwyldroadol i bobl o gefndiroedd gwahanol sy'n dod i gredu

Cnoi cil: Beth yn y darn hwn sy'n ein cymell i beidio â chanolbwyntio'n llwyr ar ein rhan ni, ond i weddio a dibynnu'n hyderus ar yr Ysbryd Glân wrth efengylu?

## I gloi

Gobeithio i chi gael bendith ac anogaeth o'r sesiwn. Tybed beth wnaeth eich taro fwyaf o'r hyn a glywsoch? Beth am gymryd amser i ddiolch i Dduw am hynny, a nodi unrhyw bwyntiau penodol i weithredu arnynt fel na fyddwn yn anghofio!